***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 6

# DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. MEWN PERTHYNAS Â CHYNORTHWYWYR GWEITHREDIAETHAU AWDURDODAU LLEOL

## *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)*

6 (1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 12(2)(b) (aelodaeth pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu’n gynorthwyydd i’w weithrediaeth”.

(3) Yn adran 14(2) (cadeirydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu’n gynorthwyydd i’w weithrediaeth”.

(4) Yn adran 82 (aelodaeth pwyllgor llywodraethu ac archwilio)—

(a) yn is-adran (2)(c) ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu’n gynorthwyydd i’w weithrediaeth”;

(b) yn is-adran (3) ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod” mewnosoder “neu gynorthwyydd i’w weithrediaeth”.

(5) Yn adran 83(2) (cadeirydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio), ar ôl “weithrediaeth yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu’n gynorthwyydd i’w weithrediaeth”.